Parasitiaid allanol – Pryfedu, Trogod a Llau

Mae pob pla parasitig o'r croen a'r cnu yn gostus o ran colli cyflwr, triniaeth a materion lles.
Mae rheoli effeithiol yn dibynnu ar adnabod y parasit(iaid) sy'n bresennol. Y problemau pennaf o ran parasitiaid allanol yw pryfedu, trogod, llau a'r clafr (Mae taflen ffeithiau ar wahân ar gyfer y clafr).

Pryfedu

Mae pryfedu yn ganlyniad i feinweoedd byw yn dioddef pla o larfau (cynrhon) clêr (Diptera).

Arwyddion o bryfedu

- Aflonyddwch
- Siglo cynffon yn egnïol
- Troi i gnoi a rhwbio'r pen-ôl
- Y gwlân yn frwnt, yn drewi ac yn cael ei golli

Lleihau'r risg:

- Cneifio, cneifio'r afl neu ddi-gaglu o ddechrau Ebrill a gwneud hynny eto bob 4 i 6 wythnos
- Defnyddio triniaethau cemegol yn ôl y risg. Gweler gwefan SCOPS.
- Archwilio'r ddiadell yn aml yn ystod y tymor pryfedu
- Gall carcasau a chlwy'r traed ddenu clêr chwythu; felly, ceisiwch gael gwared â'r carcasau a thrin y traed ar unwaith.

Pryfedu

Llun o drogod gan WVSC

Trogod

Mae trogod ym mhob cyfnod o'u bywyd gweithredol yn bwydo ar waed defaid.

Gall trogod fod yn gludwyr nifer o glefydau pwysig sy'n effeithio ar ddefaid, da byw eraill a phobl:

- Twymyn trogod
- Enceffalitis trogod
- Y breid
- Pyemia ŵyn
- Clefyd Lyme

Lleihau'r risg:

- Rhoi polisi cwarantin ar waith ar gyfer anifeiliaid sy'n cyrraedd y fferm
- Os cewch hyd i ectoparasitiaid parhaol ar un anifail, dylid ystyried bod y grŵp cyfan yn dioddef a dylid trin yr holl anifeiliaid ar yr un pryd
- Defnyddio triniaethau cemegol ataliol yn ôl y risg.

Parasitiaid allanol – Pryfedu, Trogod a Llau

Llau

Mae llau cnoi (Bovicola ovis) yn bryfed bach, gwelw i goch/brown sy'n bwydo ar gennau ar yr epitheliwm, ffibrau gwlân a gweddillion croen.

Arwyddion o lau

- Dermatitis cronig
- Llid
- Cosi
- Rhwbio
- Cni'r cnu

Mae modd cymysgu'r arwyddion hyn â'r clafr (Gweler taflen ffeithiau ar wahân i'r clafr).

Lleihau'r risg:

- Rhowch bolisi cwarantin ar waith ar gyfer anifeiliaid sy'n cyrraedd y fferm
- Os cewch hyd i ectoparasitiaid parhaol ar un anifail, dylid ystyried bod y grŵp cyfan yn dioddef a dylid trin yr holl anifeiliaid ar yr un pryd
- Defnyddiwch driniaethau cemegol ataliol yn ôl y risg.

Triniaethau Cemegol ar gyfer Parasitiaid Allanol

- Mae'n bwysig gwybod pa barasit sydd dan sylw cyn penderfynu ar y driniaeth. Bydd hyn yn rhoi'r effeithlonrwydd gorau a bydd yn atal problemau ymwrthedd yn y dyfodol – gallwch wneud hyn â samplau wedi eu cymryd gan eich milfeddyg
- Gwnewch yn siŵr fod y defaid yn cael eu pwyso os ydych yn defnyddio pigiadau neu driniaethau-arllwys
- Dylai cafnau dipio fod wedi eu graddnodi'n gywir. Caniatewch i ddefaid sydd wedi eu dipio sefyll yn y lloc draenio am o leiaf 10 munud i ddiferu fel bod y diferion yn llifo'n ôl i'r cafn
- Peidiwch â rhoi'r defaid sydd newydd gael eu dipio yn ôl ar y tir pori arferol. Rhowch nhw mewn cae dros dro (heb gwrs dŵr naturiol) sy'n ffinio â'r safle dipio gyda chafn o ddŵr glân am o leiaf 24 awr.

Ariannwyd y Rhaglen Datblygu Cig Coch gan Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ag arian gan y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.